



## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

<b>Thema 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol</b>	
<b>Blaenoriaeth 1: Gwneud defnydd o'r amgylchedd a'r dirwedd naturiol.</b>	
<b>Nod</b>	<b>Mathau o gamau gweithredu</b>
1.1.1 Cynyddu'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol a lles sy'n cael eu creu gan amgylchedd Ceredigion sydd o ansawdd uchel.	Ymchwilio trwy astudiaethau dichonoldeb y cyfleoedd ar gyfer datblygu dulliau arloesol a chreu cyfleoedd entrepreneuriaidd i sicrhau'r budd economaidd mwyaf o'r amgylchedd naturiol, e.e. cynlluniau ynni adnewyddadwy/Llwybr Arfordir Cymru.  Datblygu mentrau sy'n gwella ac yn darparu gwell mynediad at yr amgylchedd naturiol ac adeiledig lleol.
1.1.2 Datblygu camau gweithredu cydweithredol yn ardaloedd Dyffryn Teifi, Mynyddoedd Cambrian a Biosffer Dyfi, sy'n seiliedig ar wneud defnydd o'r amgylchedd a'r dirwedd naturiol.	Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer camau gweithredu cydweithredol ar y cyd, sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r dirwedd naturiol. Mynyddoedd Cambrian, Dyffryn Teifi a Biosffer Dyfi, a darparu adnoddau cymorth i gyflawni'r gweithgarwch ar lawr gwlad.
1.1.3 Annog rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd naturiol a thirwedd yr ardal.	Datblygu rhwydwaith o fusnesau lleol, grwpiau cynhyrchwyr a grwpiau cymunedol i: i. Rhwydweithio a chydweithio ar fentrau a arweinir yn lleol sy'n cefnogi'r amgylchedd a'r economi lleol. ii. Adnabod ac ymchwilio i ddefnyddiau arloesol ar gyfer cynhyrchion naturiol gan gynnwys cynhyrchion o ansawdd gwael, e.e. pren.  Peilota mentrau sy'n cefnogi cyfleoedd rheoli tir, e.e. yn ardaloedd yr Ucheldir.
1.1.4 Cryfhau sgiliau'r gweithlu yn y sector a darparu cyfleoedd hyfforddi i wirfoddolwyr.	Cyflwyno mentrau hyfforddi i gryfhau sgiliau unigolion sy'n ymwneud â rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd naturiol.
<b>Blaenoriaeth 2: Cryfhau hunaniaeth yr ardal gan ddefnyddio asedau diwylliannol yr ardal.</b>	
1.2.1 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl Ceredigion.	Ymgysylltu â chlystyrau newydd a phresennol i wella sgiliau Cymraeg o fewn y gymuned ac yn y gweithlu.



Mawrth 2016





## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

1.2.2 Cynyddu ac atgyfnerthu sgiliau Cymraeg pobl Ceredigion.	Adnabod dulliau newydd o wella sgiliau pobl a magu hyder yn y defnydd o'r Gymraeg.
1.2.3. Hyrwyddo gweithgareddau economaidd a fydd yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg.	Hyrwyddo gweithgareddau economaidd arloesol sy'n cael eu datblygu o berthynas uniongyrchol â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.
1.2.4 Dathlu a hyrwyddo treftadaeth gymdeithasol a diwylliannol gyfoethog Ceredigion.	Ymgysylltu â'r sector celfyddydol i ddefnyddio llefydd gwag yng Ngheredigion ar gyfer arddangosfeydd, stiwdios a pherfformiadau.
1.2.5 Gwarchod a hyrwyddo amryw fridiau da byw brodorol Ceredigion.	Codi proffil manteision y Gymraeg fel arf marchnata a chefnogi mentrau sy'n hyrwyddo datblygu brand Cymru.
<b>Blaenoriaeth 3: Gweithredu dull Rheoli Cyrchfannau at dwristiaeth ac ymdeimlad o le yng Ngheredigion.</b>	
1.3.1 Meithrin amgylchedd o rwydweithio rhwng y sectorau cymunedol a busnes a phartneriaid rheoli cyrchfannau i rannu arfer gorau ac adnoddau.	Datblygu a gweithredu cynhyrchion arloesol, mentrau cydweithredol a strategaethau hybu ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o Geredigion, Dyffryn Teifi, Mynyddoedd Cambrian a Biosffer Dyfi fel cyrchfannau. Annog cymhwyso egwyddorion Rheoli Ansawdd Integredig i weithgareddau LEADER.
1.3.2 Datblygu cynnyrch arloesol a mentrau cydweithredol i hyrwyddo ardaloedd Dyffryn Teifi, Mynyddoedd Cambrian a Biosffer Dyfi fel cyrchfannau.	Recriwtio 'llysgenhadon' lleol i weithredu mentrau cymunedol sy'n hyrwyddo hynodrwydd lleol ac yn dathlu themâu lleol.  Datblygu rhwydwaith o'r 'llysgenhadon' lleol uchod, i rannu gwybodaeth ac adnoddau a chryfhau cysylltiadau â'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau.
1.3.3 Ysgogi twf clystyrau lleol i weithredu mentrau twristiaeth gan ddefnyddio adnoddau naturiol a diwylliannol yr ardal fel ased.	Ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer dulliau gwahanol o gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr mewn lleoliadau gwledig.
1.3.4 Datblygu rhaglen gwasanaeth cwsmeriaid sy'n canolbwyntio ar Geredigion.	Datblygu a gweithredu rhaglen gwasanaeth cwsmeriaid sydd wedi'i theilwra ar gyfer anghenion busnesau Ceredigion - datblygu cynllun mentora i rannu gwybodaeth ac adnoddau.



CYNGOR SIR  
**CEREDIGION**  
COUNTY COUNCIL

Mawrth 2016





## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

<p>1.3.5 Gwneud y sector twristiaeth yn fwy deniadol i bobl iau.</p>	<p>Codi proffil twristiaeth fel gyrfa o ddewis i bobl ifanc.</p> <p>Annog hyrwyddo cyfleoedd entrepreneuriaidd a datblygu dulliau arloesol ar gyfer yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant twristiaeth.</p>
<p><b>Blaenoriaeth 4: Addasu i newid yn y boblogaeth yng Ngheredigion, gydag allfudo net o bobl ifanc a mewnfudo net o bobl canol oed.</b></p>	
<p>1.4.1 Meithrin integreiddio rhwng demograffeg oedran wahanol er mwyn cefnogi cymdogaethau Cymraeg eu hiaith cynaliadwy a chydlyniant cymunedol.</p>	<p>Ymgymryd â rhaglen ymgysylltu â'r gymuned i ysgogi diddordeb ac adnabod cymunedau a/neu rwydweithiau.</p> <p>Adnabod cymuned/rhwydwaith a darparu cymorth drwy brosiect peilot i hwyluso integreiddio.</p> <p>Datblygu gweithgareddau megis digwyddiadau diwylliannol i liniaru effeithiau symudedd demograffig.</p>
<p>1.4.2 Annog mwy o ymgysylltu rhwng gwahanol grwpiau oedran i hyrwyddo trosglwyddo sgiliau.</p>	<p>Hwyluso a chefnogi mentrau rhwng y cenedlaethau, megis cysylltu tyfwyr â phobl ifanc sydd â diddordeb mewn tyfu cynnyrch/mentrau TG i hyrwyddo trosglwyddo sgiliau.</p>
<p>1.4.3 Archwilio cyfleoedd busnes sy'n deillio o anghenion gwasanaeth y boblogaeth sy'n heneiddio.</p>	<p>Adnabod modelau arfer gorau.</p>
<p><b>Blaenoriaeth 5: Gwella gallu'r gymuned i archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cymunedau cryf a mwy rhagweithiol.</b></p>	
<p>1.5.1 Cynyddu'r cymorth sydd ar gael i grwpiau a sefydliadau ar gyfer datblygu mentrau cynaliadwy lleol.</p>	<p>Datblygu gwasanaeth cefnogi a chyfeirio i roi arweiniad cyn-ddatblygu ar gyfer ceisiadau am gyllid, gyda'r nod o ddatblygu gallu'r gymuned a chreu mentrau mwy cynaliadwy.</p> <p>Ymgysylltu ag unigolion a chymunedau i adnabod eu dyheadau gan arwain at ddatblygu gweithgareddau peilot, sydd yn ei dro yn creu diwylliant o arloesi.</p>



## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

<b>Thema 2: Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr</b>	
<b>Blaenoriaeth 1: Hwyluso economi sy'n seiliedig ar wybodaeth sylweddol er mwyn cefnogi cyfleoedd newydd ac arloesol.</b>	
<b>Nod</b>	<b>Mathau o gamau gweithredu</b>
2.1.1 Cael mynediad i wybodaeth sy'n arwain y farchnad a fydd yn caniatáu i fusnesau Ceredigion gael mynediad at ddata er mwyn cefnogi twf yn y sector preifat.	<p>Archwilio anghenion busnesau lleol yng Ngheredigion.</p> <p>Ymgymryd â gwaith ymchwil a fydd yn cynorthwyo busnesau ym mhob sector i weld tueddiadau yn y farchnad, data'r farchnad, dadansoddiad o wybodaeth am y farchnad a chanlyniadau gwaith ymchwil.</p> <p>Comisiynu ymchwil twristiaeth a gweithgareddau meincnodi canol tref.</p>
2.1.2 Meithrin amgylchedd o rwydweithio rhwng y sectorau cymunedol a busnes i rannu arfer gorau ac adnoddau.	<p>Adnabod a recriwtio entrepreneuriaid hunangyflogedig sefydledig i ffurfio rhwydwaith, rhannu gwybodaeth ac adnoddau gydag entrepreneuriaid newydd er mwyn cryfhau'r sector.</p> <p>Darparu adnodd i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o gysylltiadau o fewn y sector mentrau cymdeithasol a hwyluso'r gwaith o ddarparu'r gefnogaeth ac annog masnachu rhwng mentrau cymdeithasol</p> <p>Adnabod a datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau newydd ac sy'n bodoli eisoes. Meithrin gallu o fewn y grwpiau hyn i ysgogi mentrau lleol a arweinir gan y gymuned, e.e. cefnogi clystyrau o gynhyrchwyr lleol i weithredu mentrau cwmnïau cydweithredol sy'n tyfu bwyd a arweinir gan y gymuned drwy ddefnyddio manau gwyrdd, a chreu rhwydwaith o farchnadoedd cynnyrch mewn cyfleusterau cymunedol a chefnogi Partneriaethau Canol Tref/Ardal Gwella Busnes.</p>
2.1.3 Gwella mynediad gan fusnesau ac entrepreneuriaid i Addysg Uwch a'r sector ymchwil a	Datblygu rhwydwaith o unigolion sy'n cynrychioli'r gwahanol Brifysgolion a sefydliadau ymchwil.



## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

<p>datblygu er mwyn cefnogi cyfleoedd newydd ac arloesol.</p>	<p>Cynnal ymgyrch ymgysylltu a hysbysebu i adnabod darpar entrepreneuriaid</p> <p>Datblygu canolfannau busnes trwy hwyluso datblygu yn y gweithle a chreu cyfleoedd ar gyfer unedau hybu busnes.</p> <p>Darparu cynllun mentora er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a phrofiad busnesau lleol sy'n bodoli eisoes â'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid</p>
<p>2.1.4 Meithrin datblygu cynnyrch cyn-fasnachol arloesol a fydd yn helpu i gyrraedd marchnadoedd newydd.</p>	<p>Datblygu cyfleoedd i gydweithio â Chanolfan Bwyd Cymru a chynlluniau eraill i greu darpariaeth cymorth i ddatblygu cynnyrch arloesol, gyda'r nod o fanteisio ar gyfleoedd newydd yn y farchnad ar lefel lleol, e.e. cynyddu oes silff cynhyrchion bwyd.</p>
<p><b>Blaenoriaeth 2: Cryfhau cadwyni cyflenwi byr er mwyn cael y budd gorau posibl i fusnesau.</b></p>	
<p>2.2.1 Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol yng Ngheredigion.</p>	<p>Adnabod cynhyrchwyr a chlystyrau lleol posibl drwy broses ymgysylltu, e.e. gweithio gyda siopau bwyd i farchnata cynhyrchwyr lleol o safon uchel.</p> <p>Hwyluso datblygu clystyrau o gynhyrchwyr lleol, e.e. bwyd/artisiaid/crefftwyr ac ati</p> <p>Adnabod mentrau hyrwyddo lleol ar y cyd e.e. drwy dechnoleg ddigidol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnyrch lleol a hybu cadwyni cyflenwi byr.</p> <p>Hwyluso treialu mentrau marchnata arloesol ym mhob sector, yn enwedig datblygu mentrau penodol sy'n hyrwyddo datblygu brand Cymru.</p>
<p><b>Blaenoriaeth 3: Cynyddu cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu.</b></p>	
<p>2.3.1 Annog twf sgiliau arweinyddiaeth.</p>	<p>Cyflwyno mentrau i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth unigolion drwy fentora/hyfforddi, gyda'r nod o uwchsgilio'r gweithlu ym mhob sector.</p>
<p>2.3.2 Uwchsgilio gweithlu cyflogaeth Ceredigion.</p>	<p>Datblygu meddwl creadigol ac arloesol ymysg 'arweinwyr' mentrau cymdeithasol.</p>



CYNGOR SIR  
**CEREDIGION**  
COUNTY COUNCIL





## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

2.3.3 Cefnogi mentrau sy'n helpu unigolion i gael mynediad at waith, hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a gwasanaethau eraill.	Cynnal astudiaethau dichonoldeb/gweithgareddau peilot i sefydlu cynlluniau trafndiaeth e.e. Cynlluniau Olwynion Lleol i Gyfleoedd er mwyn i ddinasyddion gwledig, yn enwedig pobl ifanc allu manteisio ar gyfleoedd o'r fath.
<b>Thema 3: Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol</b>	
<b>Blaenoriaeth 1: Gwella gallu'r gymuned i archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cymunedau cryf a mwy rhagweithiol</b>	
<b>Nod</b>	<b>Math o gamau gweithredu</b>
3.1.1 Adeiladu gallu a chynyddu hyder unigolion / grwpiau i adnabod cyfleoedd ar gyfer datblygiadau cymunedol.	<p>Sefydlu Academi Arweinyddiaeth Gymunedol i feithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr cymunedol.</p> <p>Archwilio ffyrdd o ymgysylltu a chyrraedd sbectrwm ehangach o ddinasyddion i gymryd rhan wrth gynllunio a chyflwyno mentrau cymunedol.</p> <p>Cyflwyno ymarferiad ymgysylltu â'r gymuned i ysgogi gweithredu gan y gymuned.</p> <p>Archwilio'r potensial o greu cynllun rhoi drwy'r gyflogres 'Ceiniogau Ceredigion' fel offeryn ariannol lleol ychwanegol i gefnogi datblygu economaidd mewn cymunedau lleol.</p> <p>Adnabod cyfleoedd i sefydliadau ddatblygu ffyrdd newydd o godi arian, amrywio portffolios cyllido, a chynnal asedau a gweithgareddau yn well.</p>
3.1.2 Gwella mynediad at wybodaeth a meithrin rhwydweithiau cymunedol.	<p>Hwyluso mynediad at wasanaethau cyngor/ariannol mewn ardaloedd gwledig drwy ganolfannau cymunedol.</p> <p>Hwyluso sefydlu rhwydweithiau cymunedol e.e. neiniau a theidiau i rannu ymrwymadau gofal plant ac annog cymdeithasoli.</p> <p>Adnabod cyfleoedd i gefnogi rhannu asedau ffisegol ac adnoddau dinasyddion drwy</p>





## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

	gynllun credyd amser.
3.1.3 Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu o fewn cymunedau.	Peilota gweithgareddau gyda Chynghorau Tref a Chymuned i archwilio gwahanol ddulliau o ymgysylltu â dinasyddion. Bydd hyn yn annog cymunedau i drafod materion lleol a allai rannu cymunedau drwy ddefnyddio dulliau hwyluso/cyfyngu sensitif i sicrhau newid.
3.1.4 Ymchwilio i rôl cymunedau a phartneriaid cyflenwi eraill o ran darparu gwasanaethau anstatudol lleol a chefnogi trosglwyddo asedau a gwasanaethau anstatudol.	<p>Cynnal astudiaethau dichonoldeb i ymchwilio i rôl grwpiau Mentrau Cymdeithasol/cymunedol gan ystyried ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol.</p> <p>Datblygu cysylltiadau rhwng cymunedau a darparwyr gwasanaethau i adnabod cyfleoedd i ddarparu a chynhyrchu gwasanaethau ar y cyd o fewn y gymuned wledig, e.e. galluogi cymunedau i helpu i gefnogi eu dinasyddion mwyaf agored i niwed.</p> <p>Datblygu achosion busnes paratoadol ar gyfer trosglwyddo asedau gwasanaethau anstatudol ac asedau o fewn cymunedau.</p>
3.1.5 Adnabod dulliau arloesol o ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig.	<p>Peilota gweithgareddau gyda'r nod o ganfod modelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau anstatudol megis gofal plant a phryd ar glud.</p> <p>Peilota defnyddio technoleg i wella darparu gwasanaethau i ardaloedd mwy anghysbell gan fynd i'r afael ag unigedd.</p>
3.1.6 I beilota gweithgareddau sy'n gwella lles unigolion a chymunedau.	Cynllun peilot i ddarparu prydau gwyliau a rhaglen hyfforddi i gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tldi.
<b>Thema 4: Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol</b>	
<b>Blaenoriaeth 1: Angen gwella gallu'r gymuned i archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cymunedau cryf a mwy rhagweithiol</b>	
4.1.1 Hwyluso'r gwaith cyn-ddatblygu ar gyfer mentrau ynni adnewyddadwy cymunedol.	Ymgymryd â gwaith hyrwyddo i ennyn diddordeb cymunedau/fffermwyr mewn canfod cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau ynni.



Mawrth 2016





## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

	<p>Hwyluso cyfarfodydd partneriaid/rhanddeiliaid i drafod cynlluniau ynni adnewyddadwy yn y gymuned.</p> <p>Ymgymryd ag ymweliadau astudio ymgyfarwyddo i rwydweithio a rhannu profiadau o fentrau tebyg.</p> <p>Datblygu meithrin gallu/rhwydweithio o fewn cymunedau i hwyluso datblygu mentrau ynni adnewyddadwy cymunedol/mentrau rhannu peiriannau i gydluno llawer o bocedi bach o gyflenwad tanwydd i gael mäs critigol ac ati.</p> <p>Ymchwilio i ddichonoldeb datblygu menter cymunedol adnewyddadwy, drwy ymchwilio i (i) y mathau mwyaf priodol o ynni adnewyddadwy ar gyfer y gymuned wledig drwy brofi gallu technegol, (ii) ymgymryd â phroses ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys trigolion lleol a grwpiau (iii) ymchwilio i strwythurau busnes posibl ar gyfer gweithredu'r cynllun ynni adnewyddadwy cymunedol.</p>
<p><b>Blaenoriaeth 2: Lleihau effaith y cynnydd hirdymor mewn costau byw.</b></p>	
<p>4.2.1 Datblygu cyfleoedd ar gyfer rhannu adnoddau ac adnabod mentrau lleihau costau ac amgylchedd effeithlon newydd.</p>	<p>Adnabod cyfleoedd ar gyfer rhannu adnoddau i leihau costau byw bob dydd, e.e. Cymdeithasau Tai i gyflwyno mentrau rhannu ceir.</p> <p>Hwyluso ehangu gwahanol fathau o gludiant, e.e. cerbydau trydan.</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o'r manteision i fusnesau o effeithlonrwydd ynni.</p>
<p><b>Thema 5: Manteisio ar dechnoleg ddigidol</b></p>	
<p><b>Blaenoriaeth 1: Gwella mynediad i Dechnoleg Gwybodaeth a manteisio arni</b></p>	
<p>5.1.1 Gwella'r defnydd o fand eang y genhedlaeth nesaf gan unigolion, busnesau a chymunedau i hybu twf economaidd gwledig a chynaliadwy.</p>	<p>Rhagwelir y bydd y pecyn cymorth TGCh band eang gwledig yn cael ei ddefnyddio fel adnodd i gyflawni rhai o'r camau canlynol.</p>







## Blaenoriaethau Strategaeth Datblygu Lleol LEADER Cynnal y Cardi

	<p>Datblygu cynllun cymorth mentora/hyfforddiant wedi'i hanelu at unigolion/busnesau a chymunedau o bob sector, gan gynnwys amaethyddiaeth, twristiaeth a choedwigaeth i godi ymwybyddiaeth o fanteision band eang y genhedlaeth nesaf. Bydd hyn yn gwella sgiliau unigolion wrth iddynt fynd ymlaen i weithredu'r hyn a ddysgwyd.</p> <p>Datblygu cynllun addysg, cymorth a chynngor ar fabwysiadu a manteisio ar fand eang y genhedlaeth nesaf a chymwysiadau TGCh cysylltiedig.</p> <p>Ymgymryd â gweithgareddau arddangos o fewn y sector busnes a chymunedol i hyrwyddo manteision posibl band eang y genhedlaeth nesaf e.e. gostyngiad mewn costau, gwella effeithlonrwydd.</p>
<p>5.1.2 Sicrhau cynhwysiant digidol i bobl mewn cymunedau gwledig.</p>	<p>Cefnogi mynediad at TGCh trwy greu rhwydwaith o lysgenhadon digidol lleol i gefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.</p> <p>Peilota syniadau cymunedol arloesol sy'n manteisio ar fand eang y genhedlaeth nesaf o ran darparu gwasanaethau i ardaloedd gwledig anghysbell a datblygu gweithgareddau economaidd newydd i greu cymunedau cryf.</p> <p>Hefyd cynnwys y defnydd posibl o dechnoleg ffonau symudol.</p>
<p>5.1.3 Manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer masnachu digidol gan fusnesau a chynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau mewn ardaloedd gwledig</p>	<p>Sefydlu partneriaethau i dreialu a dangos y cyfleoedd i fusnesau fasnachu'n effeithiol ar-lein a hyrwyddo manteision posibl band eang y genhedlaeth nesaf, e.e. gostyngiad mewn costau, gwella effeithlonrwydd busnes a bod yn gystadleuol.</p> <p>Ymgymryd â gweithgareddau peilota ac ymchwil i adnabod cyfleoedd a dulliau newydd i gynyddu masnachu digidol.</p>

